

Cyngor Cymuned Dolbenmaen

Cofnodion cyfarfod (rhithiol) misol y Cyngor a gynhaliwyd ar y 1af o Ebrill 2021.

- 1 **Presennol** Richard Williams (Cadeirydd) Gwilym Evans - Prenteg, Edward Evans Richard Parry - Bryncir, John Jones - Garndolbenmaen, Megan Lloyd Williams - Golan, Manon Jones Evans - Pentrefelin, Iddon Edwards, Dafydd Thomas, Gwenno Emlyn Huws - Penmorfa.
- 2 **Ymddiheuriadau** - Anwen Humphreys (dim mynediad i offer TG, cyswllt rheolaidd ar y ffôn), Dylan Pritchard, Clifford Williams, Amanda N Owen, Delyth Evans, Huw Pritchard.
- 3 **Ddim yn bresennol** - neb.
- 4 **Datgan buddiant** - neb.
- 5 **Cywirdeb y cyn-gofnodion** - Cofnodion 4/2/21 Gwilym Evans yn cynnig ei bod yn gywir John Jones yn eilio.
Cofnodion 4/3/21 Edward Evans yn cynnig ei bod yn gywir ac Iddon Edwards yn eilio.
- 6 **Materion yn codi o'r cyn-gofnodion**

Materion Priffyrdd mis Chwefror

Tŷ'n Llech Pentrefelin - ffosydd wedi ei glanhau.

Pont Wern - y draen wedi ei glanhau.

Wal wedi disgyn rhwng Bryn Melyn a Garthmorthin - mae'r perchennog tir wedi codi un bwllch, ond ers hynny, mae bwllch arall wedi disgyn.

Pont Wern - mae arwyddion dim marciau ffordd wedi ei gosod ar y safle i ddisgwyl adnewyddu'r marciau.

Glanhau cwlferi Prenteg - mae peiriant glanhau traeniau yn cael ei rannu gydag Ardal Arfon. Yn sgil cyfnod estynedig wlyb mae rhestr o waith glanhau draeniau yn aros. Gobeithir ymweld ag ardal Prenteg yn y dyfodol agos.

Map o Ward Dolbenmaen - rhannwyd copi o fapiau o'r ardal. Clerc i holi os yw'n bosib cael copi yn dangos y wardiau.

Llwybrau Cyhoeddus - Tŷ'n Ffridd - Ffridd Newydd, Garndolbenmaen, Bont Wern - Pont Faen, Pentrefelin. Heb dderbyn ateb.

Pentrefelin - rhan o'r wal wedi ei ddinistrio a cherrig ar y llwybr troed. Adran Briffyrdd Cyngor Gwynedd wedi symud y cerrig.

Bont Felin, Bryncir - Mae'r Adran Briffyrdd yn ymwybodol o'r sefyllfa gyda chynllun gwaith wedi ei baratoi. Ymgymerir â'r gwaith pan fydd adnoddau a blaenoriaethau yn caniatáu.

Garndolbenmaen - biniau a bocsys glas yn cael ei gadael ar Y Green. Adran Gorfodaeth, Cyngor Gwynedd am lythyru gyda thrigolion Cambrian Terrace i ofyn iddynt gadw'r biniau ar eu tir.

Rhestr Etholwyr - Clerc wedi derbyn hwn.

7 **Mynwentydd**

Mynwent Bethel - mae rhai cerrig beddi angen sylw. Trafodwyd pwy oedd yn gyfrifol am y gwaith. Cytunwyd mai teulu'r ymadawedig sy'n gyfrifol, ond nid yw manylion y cyswllt agosaf wastad ar gael. Penderfynwyd ychwanegu cwestiwn i'r Ffurflen Gais i Gladdu er mwyn cael y wybodaeth.

8 **Llwybrau Cyhoeddus** - dim i'w adrodd.

9 **Adroddiad Pentrefi**

Penmorfa - adroddodd y Cyngorydd Dafydd Thomas fod llawer o blant yn defnyddio'r offer newydd yn y Cae Chwarae. Diolchodd i Bwyllgor y Cae Chwarae am ei gwaith caled yn sicrhau'r arian ar gyfer yr adnoddau.

10 **Mynwentydd**

Mynwent Bethel - mae rhai cerrig beddi angen sylw. Trafodwyd pwy oedd yn gyfrifol am y gwaith. Cytunwyd mai teulu'r ymadawedig sy'n gyfrifol, ond nid yw manylion y cyswllt agosaf wastad ar gael. Penderfynwyd cwestiwn i'r Ffurflen Gais i Gladdu- er mwyn cael y wybodaeth.


Mynwent Prenteg

Ffordd Mynwent Prenteg - mae 2 amcan bris wedi ei derbyn ar gyfer y gwaith. Mae'r trydydd contractwr yn gobeithio ymweld â'r safle dros y Pasg. Cynghorydd Gwilym Evans am gyfarfod gyda pherchennog Fron Oleu i drafod y gwaith y bwriedir ei gwneud.

Bocs BT - Clerc i gysylltu gydag Openreach i holi os yw'n dderbyniol i'r contractwr llwyddiannus symud ac ail osod hwn.

Gwter ar ochor y ffordd - Clerc i gysylltu gydag Adrian Williams Adran Priffyrdd i drefnu cyfarfod safle.

Eitem caeëdig.



11 Materion yn codi o is-bwyllgorau Eiddo a Mynwentydd y Cyngor

Llochesi Bws - glanhau yn flynyddol ym mis Tachwedd.

Sied Mynwent Bethel - pennau'r coed sy'n dal to'r sied wedi pydru. Angen ail osod llechi ar do'r sied. Clerc i gael prisiau gan 3 adeiladwr. Cynghorydd John Jones yn cynnig ei cyfarfod yn y Fynwent i drafod y gwaith.

Rheolau Claddu - angen ei hadolygu.

Ffurflenni Tendr - trafodwyd y ffurflenni newydd ac awgrymwyd rhai gwelliannau.

12 Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol

42 Rhaid i bob cyngor cymuned a thref sicrhau bod taliad o £150 y flwyddyn ar gael i'w aelodau fel cyfraniad tuag at gostau a threuliau. Mae'n ofynnol i'r Cyngor dderbyn y penderfyniad.

43 Rhaid i gynghorau tref a chymuned yng Ngrŵp A sicrhau bod taliad blynyddol o £500 yr un ar gael i isafswm o 1 ac uchafswm o 5 aelod i gydnabod cyfrifoldebau penodol. Mae hyn yn ychwanegol at y taliad o £150 am gostau a threuliau. Ddim yn berthnasol.

44 Gall cynghorau tref a chymuned yng Ngrwpiau B neu C wneud taliad blynyddol o hyd at £500 yr un i hyd at 5 aelod i gydnabod cyfrifoldebau penodol. Mae hyn yn ychwanegol at y taliad o £150 am gostau a threuliau. Penderfynu peidio mabwysiadu'r penderfyniad.

45 Gall cynghorau tref a chymuned dalu costau teithio pob aelod ar gyfer mynychu dyletswyddau cymeradwy. Derbyn y penderfyniad.

46 Os yw cyngor tref neu gymuned yn penderfynu bod angen arhosiad dros nos ar gyfer dyletswydd benodol, gall roi awdurdod i ad-dalu treuliau cynhaliaeth i'w aelodau. Derbyn y penderfyniad.

47 Gall cynghorau tref a chymuned dalu iawndal am golled ariannol i bob un o'u haelodau, lle mae colled o'r fath wedi cael ei hysgwyddo mewn gwirionedd, o ganlyniad i fod yn bresennol i gyflawni dyletswyddau cymeradwy. Derbyn y penderfyniad.

48 Gall cynghorau tref a chymuned ddarparu taliad Pennaeth Dinesig i faer neu gadeirydd y cyngor hyd at uchafswm o £1,500. Penderfynu peidio mabwysiadu'r penderfyniad.

49 Gall cynghorau tref a chymuned ddarparu taliad Dirprwy Bennaeth Dinesig i ddirprwy faer neu ddirprwy gadeirydd y cyngor hyd at uchafswm o £500. Penderfynu peidio mabwysiadu'r penderfyniad.

50 Ni all aelodau sy'n cael uwch-gyflog ym Mand 1 neu Fand 2 gan brif gyngor (hynny yw'r Arweinydd, Dirprwy Arweinydd neu Aelod Gweithrediaeth) gael unrhyw daliad gan Gyngor Tref neu Gymuned, ac

eithrio costau teithio a chynhaliaeth a chyfraniad tuag at gostau gofal a chymorth personol. Ddim yn berthnasol.

Bydd manylion unrhyw daliadau yn cael eu cyhoeddi'n flynyddol.

13 **Gohebiaeth**

Llythyrau Cyngor Gwynedd - Rheoliadau Mangreoedd a Cherbydau Di-Fwg (Cymru) 2020.

Gohebiaeth ychwanegol

- a Unllais Cymru - Diweddariad a Chrynodeb Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau Cymru.
- b Unllais Cymru - Hyfforddiant mis Ebrill.
- c Unllais Cymru - *The Good Councillor's Guide to Cyber Security*.
- ch Home Start Cymru.
- d Cyfoeth Naturiol Cymru - Rheoli risg llifogydd ym Mhorthmadog, Tremadog a dalgylch Afon Glaslyn.
- dd Swyddog Materion Cyhoeddus Sefydliad y Merched - Arolwg Cysylltedd Digidol.
- e Llythyrau diolch rhoddion ariannol - Pwyllgor Apêl Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd, Canolfan Gymdeithasol Golan, Grŵp Mynediad Dwyfor.

14 **Cynllunio**

Rhestrau - 26/2, 12/3, 19/3/2021.

Ceisiadau Cynllunio - dim.

15 **Materion Ariannol**

Ceisiadau am arian: - dim.

Monitro'r Gyllideb: Dim gorwariant yn erbyn y gyllideb a osodwyd.

Biliau i'w talu:

Cyflog Clerc	= £ 253.33
Ffôn	= £ 10.00
Cyfrifiadur	= £ 15.00
HMRC	= £ 63.20**
Aelodaeth Unllais Cymru	= £ 224.00
<u>Ychwanegwyd</u>	
Play and Leisure Ltd	= £ 14,400

**Taliad Ebrill HMRC £6.07. Credyd o £57.13 ar y cyfrif.

Derbyniadau

Cyngor Gwynedd Ad-daliad Llwybrau Cyhoeddus £ 886.00.

Parc Cenedlaethol Eryri - Grant Gardd Gymunedol Penmorfa £8940.00

Balansau Cyfrifon: Cadw £16,844.31 Cyfredol £17,796.60

16 Dewis gohebiaeth i fynd i'r Wasg/Gwefan

Wasg - Cerrig beddi Mynwent Bethel, Cyfarfod Blynyddol, Tendrau.

Gwefan - Cofnodion mis Chwefror a Mawrth, Hysbysebion Tendrau a Chyfarfod Blynyddol.